



# Ysgol Pentreuchaf

## 129. Polisi Y Rhyngwrwd

### Nod

Bellach, mae cyfrifiaduron yn dylanwadu ar addysg ar draws y Cwricwlwm cyfan, ar gyfer plant o bob oed a chyrhaeddiad. Mae newidiadau mynych a datblygiadau sylweddol a chyson yn y maes, ac felly rhaid i'r ysgol baratoi'r plant ar gyfer deall a defnyddio'r dechnoleg yn bositif, er mwyn datblygu'r defnydd mwyaf effeithiol ohono. Mae'r Rhyngwrwd a chyfathrebu electroneg bellach yn rhan annatod o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) ac mae'n holl bwysig fod ein plant yn cael manteisio ar yr hyn sydd ganddo i'w gynnig.

### Amcanion

1. Defnyddio'r Rhyngwrwd i gyfoethogi ac ehangu'r dysgu ar draws y Cwricwlwm gan dalu sylw i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ym mhob maes.
2. Datblygu sgiliau plentyn wrth ddefnyddio'r Rhyngwrwd.
3. Rhaid meithrin hyder yn y plant i reoli'r dechnoleg at eu pwrpas eu hunain, yn hytrach na dilyn cyfarwyddiadau'r cyfrifiadur yn unig.
4. Datblygu ymwybyddiaeth o gryfderau a diffygion y dechnoleg.
5. Defnyddio'r Rhyngwrwd i hyrwyddo codi safonau mewn rhifedd a llythrennedd a chywain gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o feysydd.

### Canllawiau

Yn debyg i sawl cyfrwng arall mae peryglon wrth ddefnyddio'r Rhyngwrwd. Mae deunyddiau treisiol, hiliol a phornograffig ar gael ar y Wê ynghyd ag adnoddau addysgiadol gwerthfawr a defnyddiol.

1. Annog defnydd aeddfed a chyfrifol o'r cyfrwng trwy sicrhau fod y camau i ddisgyblion yn cael eu trafod fel y gwneir defnydd priodol o'r Rhyngwrwd. Bydd pob plentyn sy'n ddigon hen i fynd ar y Rhyngwrwd yn weddol annibynnol wedi darllen, trafod a chytuno gyda'r Rheolau.
2. Dim ond mewn achosion arbennig iawn y caniateir i blentyn ddod a disg oddi cartref a'i lwytho i gyfrifiadur yn yr ysgol.
3. Sicrhau fod y Corff Llywodraethol yn ymwybodol o'r peryglon o ddefnyddio'r Rhyngwrwd ac yn fodlon ar strategaeth yr ysgol i ymdrin â'r maes.
4. Dylai'r Rhyngwrwd gael ei integreiddio gyda gweddill y Cwricwlwm fel un o'r Medrau Allweddol.
5. Bydd mynediad i'r Wê dan oruchwyliaeth athrawon
6. Defnyddiwn yr hyn a gynigir gan Ganolfan Dechnoleg Maesincla i hidlo safleoedd anaddas o'r system gan rwystro mynediad i'r disgyblion (Cyber Patrol ar hyn o bryd).
7. Dylid sicrhau fod y staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd oherwydd newidiadau a datblygiadau cyson.
8. Bydd pob P.C. yn yr ysgol wedi ei gysylltu i'r llinell ISDN ac ar y Rhyngwrwd.
9. Hysbysir rhieni er mwyn iddynt sylweddoli, er i'r ysgol gymryd camau rhesymol i atal mynediad at ddeunyddiau amhriodol na ellir gwarantu na fydd disgyblion yn cael mynediad i safleoedd anaddas unai trwy ddamwain neu wrth dorri rheolau y Polisi. Bydd gofyn i bob rhiant arwyddo copi o'r llythyr amagedig i alluogi eu plentyn i ddefnyddio'r Rhyngwrwd yn yr ysgol.

### Medrau Allweddol

Datblyga'r disgyblion eirfa pwnc drwy eu defnydd o'r Rhyngwrwd yn unigol neu mewn grwpiau bach. Trwy gywain gwybodaeth yn y gwahanol feysydd, defnyddiau sgiliau darllen, trafod ac ysgrifennu. Cânt gyfle i gydweithredu mewn grwpiau ar dasgau datrys problemau.

### Cyfle Cyfartal

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd ffurfiol yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol, yn adlewyrchu cydraddoldeb pob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i'r Rhyngwrwd. Manteisir ar bob cyfle i ddarparu'n wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn disgyblion i'w llawn botensial.

### Casgliad

Dylai pob plentyn gynyddu mewn gwybodaeth, mwynhad a hyder gan ddatblygu agwedd iach a phositif tuag at y Rhyngwrwd. Bydd holl ddefnyddwyr y Rhyngwrwd yn yr ysgol yn ymwybodol o'r rheolau a'u bod yn cadw atynt bob amser.

### Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_

**DEFNYDDIO'R RHYNGRWDYD YN YR YSGOL / USING THE INTERNET IN SCHOOL**

Wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn yr ysgol mae'r disgyblion yn cael cyfle pan yn briodol i ddefnyddio'r Rhyngwrwyd. Mae llawer o wybodaeth yn ddefnyddiol ac yn gymorth i waith y disgyblion ym mhob pwnc yn yr ysgol. Gall y disgyblion hefyd ddefnyddio e-bost i anfon negeseuon at ddefnyddwyr eraill ar draws y byd.

Yn anffodus mae rhywfaint o'r deunydd sydd ar y We Fyd Eang yn anghyfreithlon, yn ffiadd ac yn anaddas i blant. Mae'r ysgol yn credu bod y manteision a ddaw yn sgil defnyddio'r Rhyngwrwyd yn llawer mwy na'r anfanteision.

Er mwyn ceisio sicrhau na fydd y disgyblion yn mynychu safleoedd anaddas ar y We bydd athrawon yn llunio gweithgareddau pwrpasol, ac yn goruchwilio y defnydd a wna'r disgyblion o'r Rhyngwrwyd yn ystod y gwersi gan arwain disgyblion at adnoddau addas. Defnyddir hefyd feddalwedd arbennig sydd yn hidlo ac yn atal mynediad at safleoedd anaddas. Mae'n ofynnol i'r disgyblion ddeall a dilyn canllawiau'r ysgol ar gyfer defnyddio'r Rhyngwrwyd.

Amgaeaf gopi o'r canllawiau y disgwylir i bob disgybl eu dilyn pan yn defnyddio'r Rhyngwrwyd yn yr ysgol er mwyn i chi eu trafod gyda'ch plentyn/plant.

*When using Information Technology in the school, the pupils are given the opportunity to use the Internet.. Much of the information is useful and of assistance to the pupils' work in every subject in the school. The pupils can also use e-mail to send messages to other users across the world.*

*Unfortunately, some of the material on the World Wide Web is unlawful, foul and unsuitable for children. The school believes that there are more advantages than disadvantages of using the Internet.*

*In order to try and ensure that the pupils do not access unsuitable sites on the Web, teachers will form suitable activities and will supervise the use pupils make of the Internet during lessons, guiding pupils to suitable materials. Special software which filters and restricts access to unsuitable sites are also used. Pupils are required to follow the school guidelines when using the Internet. I enclose a copy of the guidelines that every pupil is expected to follow when they are using the Internet in the school for you to discuss with your child/children.*



**Defnydd o'r Rhyngwrwyd - Caniatâd Rhieni/Gwarcheidwaid**  
**Using the Internet – Parent/ Guardian Permission**

**Rwyf yn rhoi caniatâd i fy mab/merch ddefnyddio'r Rhyngwrwyd yn yr ysgol.**

Rwyf yn derbyn bod yr ysgol yn cymeryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd disgyblion yn cael mynediad i safleoedd anaddas.

Rwyf wedi trafod y Canllawiau Defnyddio'r Rhyngwrwyd gyda'm plentyn.

***I give my son/daughter permission to use the Internet in the school.***

*I accept that the school takes every reasonable step to ensure that pupils do not gain access to unsuitable sites.*

*I have discussed the Guidelines for using the Internet with my child.*

Enw'r disgybl / Pupil's name \_\_\_\_\_

Llofnodwyd/Signed \_\_\_\_\_ (Rhiant/Gwarcheidwad/Parent/Guardian)

Dyddiad / Date \_\_\_\_\_

# **Ysgol Pentreuchaf**

## **CANLLAWIAU I DDISGYBLION AR DDEFNYDDIO'R RHYNGRWDYD YN YR YSGOL**

- Mae disgwyl yr un safon ymddygiad tra'n defnyddio'r Rhyngrwyd ag y disgwylir yn arferol yn yr ysgol
- Pwrpas y Rhyngrwyd yw i ddisgyblion gywain gwybodaeth a chysylltu ag eraill – rhaid wrth ganiatâd Rhieni i wneud hyn a braint, nid hawl, yw cael mynediad i'r cyfrwng
- Ni chaniateir cyrchu, arddangos nag anfon deunydd ffiaidd ar y Rhyngrwyd
- Dylid parchu deddfau hawlfraint
- Ni ddylid yn fwriadol wastraffu amser nac adnoddau tra'n defnyddio'r cyfrwng

## ***PUPIL GUIDELINES ON USING THE INTERNET AT SCHOOL***

- *The same level of behaviour is expected whilst using the Internet as is normally expected at school*
- *The purpose of the Internet is to allow pupils to search for information and to communicate with others – parental consent must be given to do so. Access to the Internet is a privilege, not a right.*
- *Pupils are not allowed to search for, display or send any unsuitable information on the Internet*
- *Pupils should not purposely waste time or resources whilst using this medium*